Cipolwg
ar Iolo Morganwg

Cyfres o ddeg taflen waith ar gyfer dysgwyr Canolradd ac Uwch

A series of ten worksheets adapted for Canolradd and Uwch learners

wedi addasu o'r nofelau gan Gareth Thomas

adapted from the novels by Gareth Thomas



ylLolfa

A retelling of the story of Iolo Morganwg

The closing years of the C18th - Iolo, a young man of prodigious talent and boundless energy is drunk with words, outraged by injustice and in thrall to the spirit of liberty sweeping across Europe.

Iolo Morganwg had many faces: stone-mason, self-taught scholar, poet, politician, revolutionary, druid, failed businessman, drug addict, genius, and perpetrator of the greatest act of literary forgery in European history.

The action moves from Cowbridge to the society drawing rooms of Mayfair, from druidic ceremonies on wild hillsides to the bordellos of Covent Garden, from a cottage in Flemingston to a hearing before the Privy Council in Downing Street.

The true story of one of the most admired and reviled figures of Welsh history.

Ail-adroddiad stori Iolo Morganwg

Diweddglo'r 18fed ganrif - Iolo yn ddyn ifanc gyda doniau aruthrol ac egni di-ben-draw sy'n feddwol ar eiriau, llawn dicter dros anghyfiawnder ac yn ymrwymedig i'r achos rhyddid oedd yn trawsnewid Ewrop.

Oedd gan Iolo cymaint o agweddau: saer maen, ysgolhaig hunan-dysglyedig, bard, emynydd, gwleidydd, gwladgarwr, chwildrowr, derwydd, dyn busnes aflwyddiannus, ymgyrchydd dros hawliau dynol, caethwas cyffuriau, arloeswr a chyflawnwr y ffugiad llenyddol fwyaf hanes Ewrop.

Mae'r llwyfan yn symud o'r Bontfaen i'r ystafelloedd gyfarch bonheddig Mayfair, o'r seremonïau Gorseddol ar ledrau anghysbell i'r bordellos moethus Covent Garden, o fwthyn yn Nhrefflemin i wrandawiad o flaen y Cyfrin Gyngor yn stryd Downing.

Y wir stori o un o'n cymeriadau mwyaf lliwgar ein hanes - dyn sydd yn cael ei edmygu gan lawer fel arwr ond yn cael ei ddifrïo gan eraill fel twyllwr a chastiwr.

1. Trefflemin (Flemingston)

Eglwys Trefflemin

Rwy'n cusanu Peggy Roberts ar yr hewl fach wrth yr eglwys. Mae'n cusanu'n llawn teimlad - gwell na Gwen Rees sy'n stiff fel polyn. Mae angerdd yng nghusanau Peggy wrth iddi hi ymateb yn eiddgar. Rwy'n gwasgu ei bron a'i thynnu yn fy erbyn ond caf fy ngwthio bant.

'Paid, Ned, efallai bydd pobl yn ein gweld ni.'

Rwy'n dweud wrthi fydd neb yn ein gweld yng nghysgod yr ywen.

'Mae Mam a Nhad rownd y gornel yn siarad â'r ficer - beth pe bydden nhw'n dod lawr y rhiw ffordd hyn?'

Rwy'n gafael ynddi'n dynn unwaith eto a hithau'n esgus tynnu'n ôl gan chwerthin yn bleserus.

'Ned, gwranda. Mae Mam yn bendant dy fod ti'n un gwyllt fel y mae hi.'

'Pam? Beth mae hi'n ddweud?'

Mae Peggy yn edrych arna i gan esgus bod yn ddiniwed.

'Dy fod ti'n rhy llawn o eiriau i swyno merched; dy fod ti'n fath o berson fyddai'n cymryd mantais ar ferch. Addo'r byd ond wedyn dianc yn hytrach na derbyn unrhyw gyfrifoldeb.'

'Wyt ti'n credu'r fath beth?'

'Dyw i ddim yn siŵr hyd yn hyn,' meddai'n ddiniwed ac yn bryfoclyd ar yr un pryd. 'Dyw Mam ddim yn rhy hoff o'r farddoniaeth rwyt ti'n ysgrifennu i fi.'

'Dwyt ti ddim wedi'u dangos nhw i dy fam!'

'Wrth gwrs 'mod i. Rwy'n dweud popeth wrth Mam fel y dylai pob merch dda. Wel bron popeth,' meddai a'i llygaid yn fflachio yn llawn drygioni.

'Beth oedd o'i le ar fy marddoniaeth, yn ôl dy fam?'

'Wel, cawson ni broblem fach wrth chwilio pwy oedd *Aphrodite*.'

'Duwies prydferthwch Groeg.'

'Rwy'n gwybod hynny nawr. Dywedodd Felicity wrtha i. Wedyn y llinell '*Agorid y wawr ar ei grudd*.' Beth yn y byd mae'n 'i feddwl? Bod fy mochau i'n goch fel morwyn fferm arw? Yn ôl Mam, nid cynnwys y gân oedd y broblem, ond mae'n rhybuddio rhag bechgyn haerllug sy'n meddwl am ddim byd ond serch a rhyw.'

‘Nes i ddim ei sgrifennu fe i dy fam!’

‘Naddo, gobeithio!’

Meddyliodd am eiliad cyn holi’n bryfoclyd,

‘I bwy ‘sgrifennest ti’r gân yn wreiddiol ‘te?’

Rwy’n cael ofn am funud wrth gofio bod merched yn clebran â'i gilydd. Mae fy ateb yn llawn dicter ffug,

‘Peggy, paid â bod mor greulon.’

Mae’n rhoi ei breichiau am fy ysgwyddau gan edrych yn syth ym myw fy llygaid.

‘Wel, sa i’n gwybod a ydw i’n gwneud camgymeriad mawr wrth ddal i wrando ar dy eiriau mawr di, Edward Williams.’

Rwy’n sibrwd yn ei chlust,

‘Pam lai? Rwy’n un gwerth ei fachu. Cofio fy mod i’n grefftwr da a…..

Doubt thou the stars are fire;Doubt that the sun doth move;

Doubt truth to be a liar;But never doubt I love’

‘Ti ‘sgrifennodd hwnna?’

‘Na, Shakespeare wnaeth – Hamlet.’

Mae’n ysgwyd ei phen mewn anghrediniaeth.

‘Does neb yn sicr os taw ti rwyt ti neu a wyt ti’n rhywun arall hanner yr amser. Pwy wyt ti nawr? Wyt ti’n gwybod dy hunan?’

‘Efallai ddim!’

Angel gan Iolo Morganwg

Geirfa	
Agorid y wawr ar ei grudd	The dawn would rise in her blush
angerddol	passionate
anghrediniaeth	disbelief
bochau	cheeks
cyfrifoldeb	responsibility
ddiniweidrwydd	innocence
drygioni	mischievousness
haerllug	barefaced, saucy
pryfoclyd	provoking
sa i’n	I don’t
swyno	charm
ywen	yew

Llefydd i ymweld â nhw - Yn Flemingston cafodd Iolo ei fagu. Dyna lle magodd Iolo deulu gyda'i briod Peggy a lle roedd ei weithdy fel saer maen. Claddwyd e dan lawr yr eglwys. Does dim carreg fedd i’w gweld ond gwelir cofeb grand iddo fe ar wal yr eglwys. Does dim olion ar ôl o’i fwthyn ond ar dop drws tŷ agos at the safle mae angel a gerfluniwyd gan Iolo.

Adapted from *Myfi,Iolo* by Gareth Thomas.
The novel is available in Welsh and English editions from Y Lolfa

Hen Gastell Bewpyr

2. Hen Gastell y Bewpyr (Old Beaupre)

Rwy'n cerdded yng nghoedwig Bewpyr rhwng John Walters ar fy ochr dde a'i frawd, Daniel ar fy chwith. Rydyn ni'n agosáu at adfeilion hen Gastell Bewpyr, sef maenordy grymus yn llawn ysblander a dirgelwch. Yma rydyn ni'n' dadbacio bwyd ar gyfer ein picnic. Rwy'n dangos iddyn nhw y grefft o gynnau tân, berwi dŵr i wneud te Indiaid egsotig a brynais ym Mryste. Tra rydyn ni'n' yfed, allaf i ddim peidio â'u hatgoffa am y sgiliau a'r technegau y bu'n rhaid eu defnyddio i gerfio'r gwaith maen Eidalaidd wrth y brif fynedfa. Mae Daniel yn pwyntio at lythrennau enw'r teulu Bassett a adeiladodd y tŷ - medde fe. Rwy'n ei ateb yn gadarn.

'Nid y Bassetts adeiladodd.'

'Nhw wnaeth! Rwy'n bendant.'

'Na. Nhw orchmynnodd y gwaith. Nhw dalodd y gweithwyr. Nhw roddodd eu henwau uwchben y fynedfa, ond gwaith crefftwyr anghofiedig gyda sgiliau deheuig sydd yn eich swyno heddiw, nid arian y Bassetts.

'Falle taw ti fasa wedi cerfio.'

'Digon bosib, taswn i wedi bod yma ddwy ganrif yn ôl, ond dywedaf wrthoch pwy oedd y saer maen.'

Rwy'n codi ar fy nhraed. Mae'n bwynt a wnes o'r blaen, ond i wneud y neges yn fwy cofiadwy rhaid cynnwys ambell gymeriad. Rwy'n traethu am hanes y Brodyr Twrch.

'Roedd dau frawd fel chithau, William and Richard Twrch, yn gweithio yn Chwarel Seaton ym Mhen-y-bont. Dau grefftwr diwyd ond heb y sgiliau godidog oedd eu hangen i greu porthdy o fath ysblander.

Rwy'n cerdded o amgylch yr iard gan ystumio.

'Cwympodd y ddau mewn cariad â'r un ferch. Dewisodd hi William a chafodd Richard ei siomi. Cwerylai'r ddau yn ffyrnig tan, yn y diwedd, penderfynodd Richard adael y Fro ac alltudio ei hun yn bell bell i ffwrdd. Cymerodd ei galon doredig i Lundain am gysur ac i geisio bywyd newydd.

'Falle taw ti unwaith eto.' medd Daniel. Rwy'n ei anwybyddu.

‘Yna gweithiodd Richard i feistr Eidalaidd. Creodd y fath argraff, mynnodd ei feistr iddo fe ymweld â Florence lle dysgodd Richard sgiliau o’r safon uchaf . Meistrolodd nid yn unig sgiliau saer maen ond pensaernïaeth a cherfluniaeth. Roedd yn rhannol gyfrifol am adeiladu’r Ponte Santa Trinita, pont sydd yn fyd enwog am ei haddurn clasurol goludog. Pan gyrhaeddodd y newyddion am farwolaeth ei frawd, dychwelodd Richard adref, ble, fel basech chi’n dychmygu, roedd galw mawr am ei sgiliau. Gofynnodd Sir Richard Bassett iddo fe gynllunio ac adeiladu'r porthdy anhygoel o’n blaen ni.’

Mae’r brodyr yn edrych ar ei gilydd ac wedyn i fy nghyfeiriad i. Munud o dawelwch.

‘Ti wnaeth y stori ‘na?’ mae’r ddau yn fy herio.

‘Pam yn y byd fyddwn i wedi? Mae’n stori eithaf adnabyddus ymysg seiri maen Morgannwg,’

Maen nhw’n edrych yn llawn amheuaeth. Rhaid i fi feddwl yn gyflym. Gwell i fi gynnig tystiolaeth na allan nhw ei gwrthbrofi.

‘Os oes angen tystiolaeth, gofynnoch i Richard Roberts o Ben-y-bont. Disgynnydd yw e o’r brodyr Twrch. Neu ewch i Florence ac edrych am sicrwydd yng nghofnodion gweithdy Bernardo Buontalenti.’

Does neb yn dweud gair wrth i fi restru ffynonellau eraill y gallan nhw eu hastudio os nad ydyn nhw yn fy nghredu, a hefyd yn barod i deithio tua mil o filltiroedd i Fflorens, neu geisio chwilio am wreiddiau cyndadau’r Twrch yng ngorllewin Cymru. Rwy’n credu fy mod i’n ddigon saff.

Geirfa	
addurn clasurol goludog	opulent classical decoration
alltudio	to exile
cerfluniaeth	sculpture
cyndadau	forebears
disgynnydd	descendent
Eidalaidd	Italian
ffynonellau	sources
godidog	glorious
gorchymyn	to order
maenordy grymus	mighty manor house
pensaernïaeth	architecture
saer maen	stone mason
sgiliau deheuig	expert skills
traethu	to declaim, tell
tystiolaeth	evidence

Lefydd i ymweld â nhw

Hen Gastell y Bewpyr (Old Beaupre)

Ger pentref St Hilari. Mynediad am ddim. Rhaid parcio gyferbyn â 'Howe's Mill' . Mae arwyddbost yn cyfeirio'r llwybr dros ddau gae sydd yn tueddu i fod yn fwdlyd - ond mae'n wir werth y drafferth. Ar agor bob dydd 10.00am - 4.00pm

Adapted from from *Myfi,Iolo* by Gareth Thomas available in Welsh or English editions from Y Lolfa

3. Piler Sampson

Rwy ym mynwent Llanilltud Fawr. Mae'n ddiwrnod tyner o Fedi, adeg y cynhaeaf. Rwy wrthi'n ychwanegu enw Mrs. Wilkins ar garreg bedd ei gŵr. Rwy'n cofnodi'r ffaith eu bod gyda'i gilydd unwaith eto yn y pridd ac yn y nefoedd. Mae fy ngwaith ar ben a rwy'n edrych o gwmpas. Mae eglwys Llanilltud Fawr wastad yn fy ysbrydoli.

'Stori ffantasiol, dyna'r gwir amdani,' yw ymateb y clochydd i stori Wil y Cawr. Mae gyda fi dystiolaeth y cafodd gŵr ei gladdu yma a dyfodd i uchelderau aruthrol o ran taldra yn ei ieuenctid, ond bu farw oherwydd y straen ar ei galon. Wrth gloddio ei fedd roedd rhaid iddyn nhw balu mor bell oherwydd maint ei gorff, a thrwy wneud hynny disodlwyd sylfeini carreg fedd hynafol a ddisgynnodd i fedd Wil y Cawr. Cafodd fy niddordeb yn y stori yma ei hadfywio wedi i fi weld cofnod yn rhestr y plwyf am '*William Williams called the Giant, who was buried here in 1724'*. Efallai fod y stori'n wir?

'Dwli llwyr!' meddai'r clochydd, 'Gad i'r meirw orffwys ble maen nhw!'

Rwy'n ceisio'i berswadio na fyddai dim o'i le mewn troi ambell dywarchen i brofi'r honiad.

'Mae storïau fel hyn yn cael eu hymestyn dros gyfnod o amser' mae'n mynnu. 'Mae Wil y Cawr yn tyfu'n dalach bob tro mae'r stori'n cael ei hadrodd, a'r garreg, os oes un, yn tyfu hefyd. Dwi ddim yn credu bod e fawr talach na fi. Gwranda ar hen ddyn nawr, mae'r storïau'n cael eu chwyddo beth bynnag yw'r gwirionedd sy tu ôl iddyn nhw.'

Rydyn ni'n' dadlau am beth amser. Mae'n ddiwrnod braf, ac ar ôl ymryson eiriol mae'r clochydd yn rhoi'r gorau iddi. Rwy'n defnyddio caib a rhaw i gloddio twll bach yng nghanol y lle y dylsai'r bedd fod. Mae'n rhaid i fi fynd lawr tua throedfedd i daro carreg. Wedi clirio digon o bridd o'i hamgylch, gallaf weld pen carreg fedd ac arni ysgrifen hynafol. O fewn hanner awr rwy wedi dadorchuddio'r hen fedd sydd bron yn wyth troedfedd o hyd. Wedi i'r dynion gyrraedd o'r caeau cynhaeaf maen nhw hefyd am wybod beth sydd yno a does dim rhaid i fi ofyn ddwywaith am eu help. Gyda chymorth bloc a thacl ac awr o waith caled,

Piler Sampson

mae'r garreg bellach wedi'i chodi'n beryglus o syth. Tra bod yr haul yn diflannu, mae'i belydrau'n creu cysgodion ar draws yr hen lawysgrifen a rwy'n ceisio'i dehongli. Mae hon yn garreg fedd i ddau hen frenin Morgannwg, sef Ithael ac Arthmael. Mae'r ysgrifen yn awgrymu ei bod wedi ei chodi i goffau'r Abad Sampson mwy na mil o flynyddoedd yn ôl. Fel mae'r haul yn machlud y tu ôl i'r garreg dyn ni i gyd yn eistedd mewn cylch yn geg agored wedi'n hudo gan bresenoldeb y garreg ac wedi cael cipolwg sydyn ar dreftadaeth Morgannwg.

Er eu bod nhw wedi gwneud diwrnod o waith całed yn y caeau, ac awr ychwanegol yn y fynwent, maen nhw'n dal yma yn rhythu ar y garreg fel dynion wedi eu hudo. Wedi gadael, byddan nhw'n adrodd y stori wrth eu gwragedd, eu cariadon neu gyd-yfwyr eu bod nhw heno wedi dod yn rhan o hanes. Y clochydd a finnau yw'r olaf i adael. Rwy'n gwrthsefyll y demtasiwn i ddweud wrtho unwaith eto fod hen storïau'r gorffennol yn ymddangos yn fwy gogoneddus pan gaiff y gwir ei ddatgelu yng ngolau'r dydd. Does dim trosiad gwell i gyfleu fy ngwaith.

Geirfa	
clochydd	sexton
cynhaeaf	harvest
dadorchuddio	un veiled
dehongli	interperate
disodlodd sylfaeni	displaced the foundations
pelydrau	rays
treftadaeth	heritage
trosiad	metaphor
tystiolaeth	evidence
tywarchen	clod
ymryson	contest
ysgrifen hynafol	ancient inscription

Gwaith Iolo yn Eglwys St Illtud

Llefydd i ymweld â nhw - Eglwys St Illtud, Llanilltud Fawr
Gwelir Piler Sampson yng Nghapel Galilea. Mae bedd merch Iolo yn y fynwent ac enghreifftiau o'i waith fel saer maen o gwmpas yr eglwys.

Adapted from *Myfi,Iolo* by Gareth Thomas available in Welsh or English editions from Y Lolfa

4. Niwl Llundain

Llundain

Rwy'n dod mas o'r llety'r bore 'ma i ddarganfod na allaf weld dim i unrhyw gyfeiriad. Mae fel petai'n flanced dew sydd wedi'i lapio amdanaf i, arnaf i, y tu ôl ac o fy mlaen i. Prin y gallaf weld dim ond llwydni brwnt, meddal. Daliaf fy llaw wyth modfedd o fy llygaid ond nid yw hi ond cwmwl di-siâp.

Rwy'n troedio ymlaen gan ddefnyddio'r pafin i fy nghadw'n glir o'r gwter sy'n cario carthion gwaetha'r ddinas. Mae'n cymryd tua ugain munud i symud canllath gan ymbalfalu ar hyd welydd yr adeiladau fel dyn dall. Pa gornel yw hwn? Ddylai dim cornel fod yma. Rwy'n teimlo fy mod yn wir ar goll. Rwy'n rhesymu na allwn fod ymhell o'r llety ond does 'da fi ddim clem i ba gyfeiriad i droi. Rwy'n sefyll yn llonydd. Mae'r niwl yn tewhau. Mae ei sawr yn fy ngheg, fy nhrwyn ac yn meddiannu fy ysgyfaint. Mae anadlu'n anodd. Mae fy mogfa'n ôl nawr, wedi ei gythruddo gan lwch a mwg glo'r ddinas. Rwy'n ymladd am anadl a thagu. Rwy'n pwyso yn erbyn wal yn hollol luddedig. Rwy'n suddo i'r llawr. Rwy'n cau fy llygaid a meddwl am y niwl ysgafn sy'n disgyn dros Fro Morgannwg o dro i dro, niwl sy'n anwesu yn hytrach nag yn tagu. Efallai taw dyma fydd lle fy nhranc.

'Mr Williams, what are you doing here?'

Rwy'n cymryd yn ganiataol taw breuddwydio rwy i, ond wedi edrych yn fanylach rwy'n gweld yr hen fenyw, fy lletywraig. Am y tro cyntaf gwelaf i hi fel person yn hytrach na sachaid o esgyrn. Mae hi'n plygu lawr mewn deallusrwydd.

'Folk 'ow aint used to it can get lost in these 'ere fogs, easy as anythink. We need to get you back 'ome and no mistake. Can you get back on your pegs?'

Mae'n fy helpu i godi ac yn gofyn i fi roi fy mraich dros ei hysgwydd. Mae'n edrych yn wantan ond mae ganddi hi gyhyrau fel dur.

'Ain't much further now, young sir.'

Rwy'n cyrraedd y llety. Mae'r hen wreigan yn fy helpu i ddringo'r grisiau a fy ngadael ar y fatres wellt fudr.

'You rightly need some physic,' mae'n dweud yn famol. 'What d'ya take when it strikes you like this?'

Rwy'n ceisio cofio'r rysáit o ysgallen a dail malws.

'I think I can do better than that. Got thrupence and I'll have you cured in a tick? Drop of laudanum should do the trick.'

Ymhen hir a hwyr rwy'n yfed o ryw botel sy'n llawn hylif tywyll, a hwnnw'n dew a melys. Mae'r gwres yn llifo drwy fy nghorff . Mae fy mhesych yn tawelu. Mae fy anadl yn well a fy nghalon yn arafu. Rwy'n disgyn i drwmgwsg.

'Rwy'n teimlo ac yn arogli'r glaswellt lle rwy'n gorwedd a theimlo llaw Peggy yn anwesu fy ngwallt. Rwy'n clywed adar yn y pellter. Rwy'n codi ac yn arnofio uwch y ddaear. Mae arnofio heb bwysau'n rhwydd. Rhaid peidio â meddwl neu byddaf yn cwympo. Mae Peggy yn dal fy mraich dan chwerthin. Mae ofn arni hi. Dwi'n dweud wrthi y bydd hi'n hollol ddiogel gyda fi. Rwy'n edrych i lawr ar y Fro gyfan yng ngoleuni harddwch y bore. Mae llyfr yn codi i fy llaw- wn i ddim o ble y daeth. Rwy'n ei agor a gweld cywyddau hyfryd yr hen feistri crefftus. Mae'r llyfr yn canu. Mae sawl glöyn byw prydferth yn heidio o amgylch y dudalen gan wledda ar ei felyster.

Rwy'n dihuno. Mae'r hen fenyw yn eistedd wrth fy ochr ac yn edrych ar fy ôl fel taswn i'n blentyn iddi. Mae'n sychu fy nhalcen â darn o glwtyn.

'You'll be better now. Does the job and no mistake.'

Geirfa	
anwesu	caress
arnofio	float
cythruddo	irritate
cywyddau	verse form in strict meter
deallusrwydd	understanding
glöyn byw	butterfly
gwreigan	small woman
llwydni budr	dirty mould
tranc	death
y fogfa	asthma
ymbalfalu	fumbling
ymollwng	release
ysgallen a dail malws	thistle and mallow leaves
ysgyfaint	lungs

Adapted from *Myfi,Iolo* by Gareth Thomas available in Welsh and English editions from Y Lolfa

5. Carchar Dyledwyr Caerdydd

Pum llath o hyd a phum llath ar draws wedi'i adeiladu o wenithfaen garw. Dyma faint fy myd cyfyng nawr. Pa mor greulon yw hyn i ddyn sy'n byw ei fywyd yn ôl rhythmau natur a chefn gwlad? Neu i saer maen sydd yn gorfod edrych ar feini wedi'u hollti mor wael, ac yn sarhad i'w grefft? Dyw i ddim yn siŵr a ydw i'n dioddef o golera neu dwymyn carchar, ond mae arna i ofn na allaf i oroesi'r clefyd yma. Rwy'n chwydu ac yn chwysu. Rwy'n llewygu a breuddwydio'r freuddwyd fwyaf ciaidd. Rwy'n boeth. Rwy'n oer. Rwy'n crynu. Rwy'n credu fy mod ar fin marw. Ond nid ydw hynny'n wir. Mae Peggy gyda fi. Mae'n eistedd wrth erchwyn fy ngwely. Rwy mor lwcus o'i chael ac nid wyf yn ei haeddu. Mae'n rhoi llymaid o lodnwm i fi.

Rwyf wedi siarad â sawl bardd yn fy nghyfnod yma. Rwy'n agosáu at bob un yn ei dro gan ofyn am eu help yn fy mhrosiect. Maen nhw i gyd yn fodlon, er bod eisiau mwy o berswâd ar rhai nag eraill. Yn wir, mae'r gell yn orlawn o feirdd o Rys Goch i griw yr ail ganrif ar bymtheg, pob un ohonynt yn feistri mewn un neu fwy o'r ffurfiau barddonol rwy wedi eu cynnwys ym Mesurau Morgannwg. Mae eu hachau a'r cyfnod maen nhw'n cynrychioli, oll yn cyfrannu tystiolaeth i ategu taw Morgannwg oedd canolbwynt pwysicaf creadigrwydd barddonol yn hytrach nag unrhyw ran arall o Gymru - gan gynnwys Gwynedd.

Maen nhw'n gallu bod yn griw bywiog, yn mwynhau ysbeidiau o lawenydd, ecstatig, cyfnodau o ddigalondid, cweryla, miri, a phan fo cwestiynau o flaenoriaeth yn codi, sialensiau i frwydro'n bersonol. Ond mae'r rheolau barddol yn gwahardd trais o unrhyw fath. Mae rhaid i fi fod yn gadarn ynglŷn â hyn ar adegau gan wynebu gwrthryfel agored. Er fy mod wedi dod i ymarfer â'r chwarae geiriau bywiog sy'n digwydd pan fo'r beirdd i gyd yn bresennol, rwy'n cofio un foment pan gefais syndod pleserus.

Rwy'n derbyn llythyr a ysgrifennais ataf fi fy hunan, oddi wrth fardd dinod o Forgannwg adeg y Rhyfel Cartref. Mae'n darllen:

'Mr Iolo, Rydw i wedi clywed eich bod wrthi'n codi beirdd o'u beddau. Byddwn yn gwerthfawrogi cael cyfle arall i ddychanu'r ffwlbri sydd yn bodoli ymysg bonheddwyr Morgannwg. Pan oeddwn yn fyw,

doedd dim prinder ffyliaid anwybodus a thwp ymysg y crach yma a'r dasg bennaf yn ystod fy mywyd oedd eu gwneud yn destun hwyl ymysg pobl gyffredin y Fro. Nid wy'n amau fod y genhedlaeth gyfoes o gyfreithwyr, tirfeddianwyr a chlerigwyr yn haeddu'r un gwawd a byddwn yn falch i lamu o'r bedd ar funud o rybudd pe baswn o unrhyw fudd i'ch achos.

Dy was dychanol, Wil Tabwr'

Mae'n cyrraedd fy nghell mewn gwisg wledig syml ond yn ymddwyn fel brenin. Mae'n fy nghyfarch yn iaith syml a gonest Morgannwg, ond mae ei osgo talsyth yn dynodi un sy'n gwybod beth yw hanfod y gwir. Nad yw cell carchar yn lle i ysbryd rhydd. Mae'n mynd â fi i ffeiriau gwledig a sgwariau pentrefi, i ddawnsfeydd y Fedwen Fai ac i weithgaredd cneifio defaid. Fe yw brenin rhamantwyr gwledig, yn barod i wneud ffŵl ohono'i hunan er mwyn ennill cariad bugeiles ddeniadol.

Nid yw'n hapus i fodoli fel aelod cyffredin o fy nghasgliad o rigymwyr.. Mae e am ddawnsio ac am grwydro gyda fi ar draws y sir. Yn Llangynwyd ar noson o haf rydyn ni'n difyrru cynulleidfa drwy adrodd darnau o farddoniaeth. Rydyn ni'n' cyfarfod â'r ddwy ferch bertaf yno. Peggy yw fy un i. Mae ei ferch ef yn wyllt, heb ofn, hanner aderyn, hanner merch sy'n rhedeg a phryfocio a chweryla a chellwair, crio, chwerthin a charu. Wil yw'r ysbryd rhydd.

Mae'r dwymyn ar ben.

Geirfa	
achau	genealogy
bendigaid	blessed
budd i'r achos	benefit to the cause
bugeiles	shepherdess
cellwair	joke about, lark
crach	posh
creadigrwydd	creativity
cyfyng	narrow
difyrru	entertain
dosbarthu	classify
dychanu	satire
gwenithfaen	granite
gwrthryfel	rebellion
miri	jollity
tirfeddianwyr	landowners
twymyn carchar	gaol fever
Y Fedwen Fai	The Maypole

Llefydd i ymweld â nhw

Mae hen bentref Llangynwyd yn gartref i draddodiad Morgannwg *Y Fari Lwyd*. Roedd hefyd yn lleoliad i chwedl *Y Ferch o Gefn Ydfa* sydd yn ymddangos yn y gân *Bugeilio'r Gwenith Gwyn.* Mae Iolo yn adrodd y stori yn ei ymgais aflwyddiannus i ennill cariad etifedd Ystradowen, Kitty Deere.

Adapted from *Myfi,Iolo* by Gareth Thomas available in Welsh and English editions from Y Lolfa

6. Gorsedd Bryn y Briallu, 21 Mehefin 1792

Rwy i wedi trefnu'r Orsedd gyntaf ar gopa Bryn y Briallu, Llundain. Mae cylch o feini bychain yn marcio cylch allanol ac yn y canol rwy wedi gosod 'Maen yr Orsedd' - y lle byddaf yn sefyll. Rwy i wedi ymarfer y rhai sy'n cael eu hurddo i'r drefn farddol sef David Samwell a fydd yn cymryd yr enw barddol Dafydd Ddu Feddyg a William Owen. Mae Edward Jones, y 'Bardd Brenhinol' fel mae e'n galw ei hun wedi mynnu ymuno a'r cwmni. Rwy'n ddrwgdybus.

Cynllun lolo am yr Orsedd gyntaf

Byddai'n well 'da fi arwisgo'r rhai fydd yn bresennol gan ddefnyddio mentyll ond mae costau yn fy rhwystro. Rhaid bodloni gyda rhwymau am y breichiau o wahanol liwiau. Rwy'n esbonio fod tair adran i'r drefn: Y Beirdd Rhagorfraint, sy'n gwisgo glas golau i symbylu heddwch, Y Beirdd Derwyddol sy'n gwisgo gwyn i symbylu'r gwirionedd a'r Beirdd Ofydd sy'n gwisgo gwyrdd fel symbol o ddysg. Does dim graddau. Mae pob aelod o'r Orsedd yn gydradd. Does dim uchelwyr na brenhinoedd. Dyna ddatganiad o werthoedd y Cymry.

Mae'n ddiwrnod braf a chlir a rydyn ni'n' dringo'r bryn. Fel hyn y dylai fod. Nid yw Seremonïau'r Orsedd yn gyfrin nac yn dirgel. Maen nhw'n cael eu cynnal yn yr awyr agored o flaen y cyhoedd pan mae'r haul uwch y gorwel. Mae tua ugain aelod o'r Gwyneddigion yma. Mae clwstwr bach o bobl chwilfrydig, ambell blentyn, ac rwy wrth fy modd i weld gohebydd o'r *Morning Chronicle*.

Defod y cleddyf sy'n agor yr Orsedd wrth i fi osod cleddyf noeth ar Faen yr Orsedd. Rydyn ni'n' sefyll mewn cylch i amddiffyn y byd rhag y bygythiad y mae e'n symbol ohono. Rwy'n cyhoeddi fod Beirdd Ynys Prydain yn cynrychioli heddwch. Rwy'n gofyn deirgwaith,

'A oes heddwch?'

A phawb yn ateb

'Heddwch.'

Mae'n bryd i fi adrodd fy nghyfansoddiad newydd, 'Ode on the Mythology of the Ancient British

Bryn y Briallu heddiw

Bards'. Mae'r penillion a'r gweithgareddau heddiw i gyd yn Saesneg ac mae gyda fi gopïau wrth law i ohebydd *The Morning Chronicle.*

Rwy'n gwylio Edward Jones, 'Bardd y Brenin', wrth adrodd fy mhenillion. Mae e wedi crychu ei aeliau, fel petai'n ansicr o briodoldeb fy ngeiriau. Ai ysbïwr yw e?

Mae David Samwell a William Owen yn adrodd eu cyfansoddiadau, a rwy'n eu hurddo gyda rhodd o ruban yn y lliw priodol. Pan ddaw tro Edward Jones i gamu ymlaen i adrodd, dyw e ddim yn symud. Beth yw ei broblem? Ydy ei nerfau wedi amharu arno? Rwy'n aros mewn tawelwch am funud. Dwi'n colli amynedd a datgan fod y seremoni drosodd ac yn arwain yr orymdaith yn ôl i Hampstead.

Ar y ffordd mae Edward Jones yn ail-ddarganfod ei lais gan ddechrau canu '*God save the King'*. Rwy'n wallgof. Dyma'r diwn olaf a fyddai'n addas yn seremoni'r Orsedd. Does dim modd i *Frenin y Gwaed* gael ei glodfori. Rwy'n rhoi gorchymyn i'r telynor roi'r gorau iddi. Mae'n fy anwybyddu'n llwyr.

Fydd dim maddeuant.

Rwy'n chwilio am ohebydd y *Chronicle* ac mae ganddo sawl cwestiwn i'w ofyn. Mae'n holi a fydd Gorsedd arall yn fuan? Rwy'n falch o'i sicrhau y bydd. Mae cystadleuaeth wedi ei hysbysebu i lunio cerdd yn y Saesneg yn adrodd stori Rita Gawr, arwr o Hen Brydain sydd yn enwog am lofruddio gormeswyr a brenhinoedd.

Geirfa	
Bryn y Briallu	Primrose Hill
Beirdd Derwyddol	Druidic Bards
Beirdd Ofydd	Bards of Learning (Ovates)
Beirdd Rhagorfraint	Bards of Privilege
Brenin y Gwaed	King of Blood (George 111)
cyfansoddiadau	compositions
datganiad o werthoedd	expression of values
drwgdybus.	suspicious
gohebydd	correspondent
gormeswyr	oppressors
Gwyneddigion	A London Welsh society
maddeuant.	forgiveness
rhwymau	ribbons
urddo	honour

Lefydd i ymweld â nhw

Allt Briallen yn Llundain NW1 4NR. Rhan o Barc Regent ac un o'r barciau mwyaf Llundain. Ar copa'r allt mae plac i gofnodi Gorsedd Iolo Morganwg ym 1792.

Adapted from *Myfi,Iolo* by Gareth Thomas available in Welsh and English editions from Y Lolfa



Cofeb Iolo ar Bryn y Briallu

7. Oes Dymhestlog

Mae cyhydnos y gaeaf ar ei ffordd a gyda hi, ail seremoni'r Orsedd. Rwy i wedi bod yn trefnu a thrafod gyda Samuel ac Owen mewn tafarn yn y Strand cyn ei baglu hi'n ôl i'r atig oer yn Holborn. Mae'r atig hon hyd yn oed yn teimlo fel noddfa o'i chymharu â'r strydoedd tywyll. Erbyn hyn mae Prydain mewn rhyfel yn erbyn Ffrainc a naws Llundain wedi troi'n fygythiol. Bydd criw o ddihirod yn cymryd mantais lawn ar y sefyllfa, gan grwydro'r strydoedd yn chwilio am Jacobiniaid neu unrhyw gydymdeimlwyr gweriniaethol. Maen nhw'n hela yn llawn cabledd yn enw Duw gan ddewis drwy hap a damwain y rhai maen nhw'n ymosod arnyn nhw. Mae'r gosb o gael eich dal yn ddibynnol ar y maint o ddiod feddwol a gawsai ei lyncu gan y dihirod. Mae rhai'n dianc ac eraill yn cael crasfa gas neu gael eu llofruddio heb i'r troseddwyr ofni unrhyw gosb.

Rwy'n cael y driniaeth yma gan droseddwyr ochr arall i Shoe Lane. Maen nhw'n cael eu harwain gan gigydd sy'n chwifio bwyell gig i roi mwy o rym i'w ddadl. Rwy'n cael fy ngwthio yn erbyn wal a rhyw ddeg ohonynt yn canu,

'Blast your eyes, cry Church and King, damn your soul!'

Dwi'n dweud dim. Mae hyn yn cynhyrfu'r cigydd sy'n codi'i fwyell. Mae'r gwaed arni yn dystiolaeth iddi hi gael ei defnyddio'n ddiweddar. Gyda hon uwch fy mhen mae'n bloeddio,

'Down on your marrow bones, blast ye!'

Rwy'n penlinio ar unwaith. Does dim pwynt meddwl am egwyddorion.

'In the name of God, cry Church and King!'

Mae'n aros. Rwy'n fodlon gwneud hynny os alla i osgoi dioddef y fwyell yn hollti fy mhen, ond rhaid ceisio tactegau eraill yn gyntaf. Rwy'n adrodd hwiangerdd Gymraeg yn cloi yn fy ofn a heb actio o gwbl.

Hai gel i'r dre, hai gel adre,

Ceffyl John bach cyn gynted â nhwnte

Hai'r ceffyl bach i ffair y Bontfaen,

Cam, Cam, Cam,

Rwy'n ychwanegu i fod yn ddiogel 'Church sans King, Church sans King' Rwy'n gobeithio fy mod i'n swnio'n ddigon didwyll.

Mae'n llygadu'i ddilynwyr.

'Dutch?' mae'n mentro 'and an obvious idiot?'

Maen nhw'n fy ngollwng i'n rhydd ac i ffwrdd â nhw i chwilio am fradwr o Saes gan fy ngadael i'n fwndel anniben swps ar y palmant. Ar ôl iddyn nhw ddiflannu mae dyn yn croesi'r ffordd ac yn fy helpu i godi.

'Da iawn 'ngwas i', meddai yn y Gymraeg. Mae'n ceisio codi fy nghalon, *'Twyllest ti nhw'n llwyr.'*

Rydyn ni'n' cofleidio a chwerthin gyda chymysgedd o ryddhad a hysteria. Dwy i ddim yn sicr os dylwn orfoleddu yn fy nihangfa neu i adael fy hunan gael fy llonyddu i'r iselder dyfnaf gan ffwlbri dynion fel hyn.

Geirfa	
bwyell gig	meat cleaver
cabledd	blasphemy
crafu	cringe
cydymdeimlwyr gweriniaethol	republican sympathisers
cyhydnos y gaeaf	winter equinox
diffuant	sincere
egwyddorion	principles
gorfoleddu	rejoice
heglu	run away
hwiangerdd	lullaby
noddfa	refuge
yn swps	in a heap
yn cloi yn fy ofn	transfixed with fear

Adapted from *Myfi,Iolo* by Gareth Thomas available in Welsh and English editions from Y Lolfa

8. Hedfan yn agos i'r fflamau

Mae dau offeiriad Undodaidd o'r Alban, sef Thomas Muir a Thomas Fyshe wedi eu dal a'u dyfarnu'n euog ac wedi 'u hanfon i Awstralia am ysgrifennu pamffledi yn galw am brotest yn erbyn talu trethi'r rhyfel. I ddangos fy nghymeradwyaeth i'w hachos, rwy'n hala copi o fy nghasgliad '*Poems; Lyrical and Pastoral'*atyn nhw. Er fy mawr syndod, rwy'n derbyn ateb o Awstralia yn diolch am yr anrheg ac am fy nghefnogaeth.

Gyda chymaint o bobl fel hyn yn cael eu harestio sut ydw i'n cadw'n rhydd fy hunan? Rwy i wedi cyhoeddi cymaint o bamffledi yn ymosod ar y llywodraeth. Mae lleisiau yn fy rhybuddio rhag y peryglon sydd o'n cwmpas ni.

Rwy'n eistedd yng nghwmni David Samwell o flaen tân cynnes y Bull's Head.

'Pam na ei di adref? meddai meddyg y llongau. 'Mae dy wyneb di'n rhy gyfarwydd yma i dy gadw'n ddiogel.'

'Mae gyda fi waith i'w orffen.'

'Wyt ti'n trio profi rhywbeth i ti dy hunan cyn gadael Llundain?' mae'n fy holi.

'Dwy i ddim yn deall.'

'Efallai dy fod ti'n gobeithio dod yn ferthyr – cael dy garcharu am dy gred?'

'Dim o gwbl.'

'Er hyn, rwy'n gweld dy fod ti wrth dy fodd yn hedfan yn agos at y fflamau. Bydd yn ofalus, Iolo - mae gwir beryglon yma. Am bob ffrind da sydd gyda thi, mae gyda thi ddau elyn hefyd ac mae'r fflamau'n boeth.'

***



Ar fy ffordd adref rwy'n cael fy arestio. Daeth pâr o Redwyr Bow Street anferth o ddwy ochor ar ryw lwybr gan gydio yn fy mreichiau a gweiddi rhywbeth bygythiol ond annealladwy.

Rwy'n gofyn pam maen nhw wedi fy nghadw fel hyn ond nid yw'r swyddogion yn fodlon dweud gair. Rwy'n cael fy nhywys am tua milltir drwy Covent Garden i swyddfa'r Prif Gwnstabl. Yma rwy'n dioddef noswaith yn y gell gyda phump arall. Ar ôl deuddeng awr oer a swnllyd, wrth i un carcharor gael hunllef mae'r drws yn agor a rwy unwaith eto yng nghwmni'r cyfeillion mewn glas sy'n mynd â fi ar hyd glannau Tafwys i Whitehall. Rwy'n teimlo bod fy mhrawf wedi cyrraedd wrth gyrraedd Stryd Downing.

Rwy'n cael fy arwain gan ringell drwy ddrws dwbl mawreddog i ystafell o baneli pren tywyll ac at fwrdd hir yn wynebu tri dyn perwigaidd yn eistedd. Tu ôl iddyn nhw mae dau glerc ac, yn y gornel, milwr arfog.

William Pitt the younger

'Good afternoon Mr Williams. Would you like to take a seat? Mae'r llais gweddus yn dod o enau'r periwig canol.

'You are Edward Williams, occasionally referred to as the Bard of Liberty?'

'I am.' Rwy'n aros i'r cyflwyniadau barhau ond wrth i'r periwig ddechrau siffrwd pentwr o bapurau, rwy'n mynnu'r hawl i ofyn cwestiwn.

'May I have the pleasure of knowing to whom I am speaking?'

Rwy'n hanner gwybod ond i fod yn glên....? Mae'r periwig cyntaf yn codi'i ben gan edrych braidd yn grac…

'Certainly, Sir. I am William Pitt, the Prime Minister.'

Mae'n rhoi arwydd i'r dde a'r chwith, 'This is Lord Grenville, the Foreign Secretary, and this is Henry Dundas, the Secretary for War. Together we form a committee of the Privy Council, a body trusted to advise the sovereign on potential sedition and threats to his majesty and his dominions.'

Beth nawr? Mae'r fflamau yn agosáu.

Geirfa	
amharu	affect, interrupt
annealladwy	incomprehensible
dyfarnu	to judge
gwarth	disrepute
merthyr	martyr
offeiriad Undodol	Unitarian ministers
periwigaidd	periwigged
rhingyll	sergeant
siffrwd	shuffling
tywys	to lead
Undodaidd	Unitarian

Adapted from *Myfi,Iolo* by Gareth Thomas available in Welsh and English editions from Y Lolfa

9. Siop Iolo



Rwy wedi cytuno i rentu adeilad 14, Y Stryd Fawr, Y Bontfaen, yn agos at Neuadd y Dref. Rwy wedi archebu llyfrau a fydd yn plesio'r ysgolheigion yn ogystal â'r rhai â thueddiadau radicalaidd. Mae 'da fi eiriaduron, llyfrau gramadeg, Beiblau, llyfrau gweddi a llyfrynnau moesol.

Rwy'n cadw llyfrau sy'n ymwneud ag athroniaeth; Voltaire, Priestly, Milton a Hume.

Hefyd, mae 'da fi gyflenwad da o offer ysgrifennu; papurau o wahanol bwysau a maint, amlenni o bob maint, inc o bob lliw, creons o liwiau'r enfys a chwyr selio du'n unig. Rwy wedi archebu oddi wrth Tucketts a Fletcher, Bryste, stoc o ddiodydd hyfryd a chyffaith da: siwgr, te, siocled, coco, sinamon, pergnau a sinsir. Nid yw'r rhain yn bethau sy'n cael eu gwerthu mewn siop lyfrau fel arfer ond maen nhw'n bethau a fyddai'n apelio at rai o natur sensitif, hynny yw, y rhai sy'n gwrthwynebu caethwasiaeth. Tu fas i fy siop mae 'da fi hysbysiad yn dweud fod fy siwgr yn 'uncontaminated with human gore'. Pwy bynnag fydd yn prynu yma byddaf yn gofyn iddyn nhw arwyddo deiseb yn galw ar San Steffan, unwaith ac am byth, i weithredu i gael gwared â'r arfer barbaraidd yma. Mae fy wythnos gyntaf yn bryderus ac eto yn hapus. Mae'r siop fechan yn llawn o bobl fusneslyd er fy mod i'n gwerthu llawer llai nag roeddwn wedi'i obeithio. Daw yma fenywod sy'n byseddu popeth ond yn prynu dim. Mwy na thebyg bydd yn rhaid i fi ddioddef hyn nes caiff y busnes ei sefydlu.

Yr hyn na allaf ei ddioddef yw'r bobl sy'n dweud nad oes dim o'i le mewn cadw caethweision ac yn mynd i siop arall, ugain llath bant ble mae'r siwgr yn rhatach. Mae'r bobl yma'n derbyn fersiwn fer o anerchiad gwych Coleridge ar gaethwasiaeth ym Mryste, ac yn gweld fy mhenillion i fel uchafbwynt. Papur, inc a chwyr selio yw'r eitemau mwyaf poblogaidd. Mae'r siopwr drws nesaf, Mr Rich, yn cymryd cryn dipyn o ddiddordeb yn fy ngweithgareddau nes fy mod yn amau bod



ganddo fe amcanion maleisus. Mae dyn o'r enw Mr Curtis wedi galw yma sawl gwaith gan ddangos diddordeb yn y llyfrau sy'n cefnogi rhyddid, ond nid yw e'n prynu yr un llyfr. Os taw ysbïwr yw e, fel rwy'n amau, mae'n un hynod o wael. Ar ôl pob galwad mae'n diflannu i'r siop drws nesaf i rannu gwybodaeth a chyfnewid nodiadau.

Gan nad wyf eisiau ei siomi rwy'n rhoi cyfrol o '*The Rights Of Man'* yn y ffenest gan wybod bod llyfr Tom Paine wedi cael ei wahardd a'i bod yn frad i unrhyw un fod â'r gyfrol yn ei feddiant. Fel pysgodyn yn ceisio llyncu'r pryf, daw Mr Curtis i'r siop y diwrnod hwnnw a thalu pum swllt amdani. Unwaith mae'r arian yn fy mhoced a'r llyfr yn ei law mae'n dangos ei wir safbwynt. Gan chwifio'r llyfr o'i flaen mae'n gweiddi,

'This shall go to Billy Pitt himself.'

Mae'n llai na hapus wrth i fi esbonio ei fod wedi prynu copi o'r Beibl dan glawr 'The Rights of Man' a'i bod yn bosibl iawn fod gan William Pitt gopi ei hun yn barod. Mewn eiliadau mae'n newid i fod yn ymosodol, gwallgof ac atgas. Mae'n mynnu cael ei arian yn ôl ac yn fy ngalw i'n dwyllwr.

'Nid twyllwr ydw i Syr. Yn y Beibl byddwch yn dod o hyd i hawliau dynol gorau ac anwylaf y byd.'

Geirfa	
a'r rhai â thueddiadau radicalaidd	those of radical tendancies
anerchiad	speech
athroniaeth	philosophy
caethwasiaeth	slavery
cwyr selio	sealing wax
cyffaith	preservatives
gwahardd	banned
penillion	verses
pergnau	nutmeg
twyllwr	deceiver
ysgolheigion	academics

Llefydd i ymweld â nhw

Siop Coffi Costa ar yr un safle yn Y Bontfaen lle agorodd Iolo Morganwg siop *masnach deg* gyntaf y byd.

Tu fas gwelir plac er cof am ei ymdrech.

Cofeb i Iolo Morganwg yn y Bontfaen

Adapted from *Myfi,Iolo* by Gareth Thomas available in Welsh and English editions from Y Lolfa

10. Gorsedd Glynogwr 1798

Cwm Glynogwr

Rwy wedi paratoi cylch Orsedd ar ochr y mynydd i'r dde o'r afon. Mae criw o ugain ohonon ni yn barod i ddringo'r tir garw fel rhan o'r seremoni agoriadol.

Ond yn amgylchynu'r llecyn, mae criw o gwnstabliaid arbennig bob un wedi'i wisgo'n bwrpasol a phob un â phastwn yn ei law. Wrth eu hymyl mae criw enfawr o'r *Cowbridge Volunteers* yn eu gwisgoedd milwrol coch yn cario drylliau a gwaywffyn. O fy mlaen mae pobl bwysig mewn hetiau uchel; sef yr ynadon. Maen nhw'n sefyll rhyngon ni a'r meini i ddangos eu gwrthwynebiad i'n cynllun ni o symud at y cylch. Dwy ddim am wrthdaro o'r fath. Gan fod y lle yma yn anghysbell, pe bai un o'r rhain yn penderfynu ein hanafu neu hyd yn oed ein llofruddio, pwy yn y byd fyddai'n credu ein fersiwn ni o'r stori? Rwy'n gofyn i Ceithiog (sy'n cario'r cledd symbolaidd) iddo 'i weini cyn symud ymlaen. Cyn bod mwy o amheuon yn codi ynof, rwy'n rhoi'r gorchymyn i ni gerdded.

Wrth i ni gyfeirio at y mynydd mae dau swyddog yn cerdded i lawr aton ni i'n cyfarfod. Rwy'n adnabod un, Walter Lloyd, ffermwr lleol hunanbwysig. Trwy godi ei law mae'n arwyddo arnon ni i stopio'n stond. Mae Walter a fi wedi cael sawl dadl cyn hyn.

'Edward Williams, fel Ynad Heddwch rwyf yma i sicrhau bod cyfraith y wlad yn cael ei pharchu ac i'ch atgoffa bod dyletswydd ar bawb, fel deiliad teyrngar i'w Fawrhydi, anrhydeddu Deddf Cyfarfodydd Terfysglyd 1795.'

Rwy'n barod am y cwestiwn a chafodd ateb yn y fan a'r lle.

'Mae'r ddeddf yn hysbys i fi a gallaf eich sicrhau ein bod yn parchu'r ddeddf . Mae'r gyfraith yn ein cyfyngu i hanner cant neu lai o bobl. Fel y gwelwch chi does dim hanner cant ohonon ni fan hyn o gwbl. Os oes rhywun yn torri'r gyfraith - wel edrychwch yn fanwl ar y nifer o swyddogion sydd gennych chi - llawer mwy niferus na'r hyn a gaiff ei ganiatáu gan y gyfraith.'

Mae'n edrych arnaf fel petawn yn rhywbeth drewllyd o dan wadnau ei esgidiau.

‘Does dim trwydded gyda chi. Mae trwydded yn angenrheidiol.’

Atebaf yn gadarn,

‘Oes, wrth gwrs, mae angen trwydded ar gyfer cyfarfodydd mewn neuaddau lle bydd tâl mynediad, neu le trafod polisïau. Ar ochor y bryn mae’n cyfarfod ni. Does dim eisiau i neb dalu a gall pawb ein gweld a’n clywed yn glir. Dyn ni yma i weddïo, i ganmol Duw, i urddo aelodau newydd a hefyd i ddarllen barddoniaeth. Does dim angen unrhyw fath o drwydded i gyflawni’r dyletswyddau hyn.’

‘Mae gyda fi reswm i amau eich ymarferion enllibus.’

‘Felly rhaid i chi gyflwyno eich tystiolaeth. Mae ‘na ddynion gwell na chi, Mr Lloyd, yn cynnwys Y Prif Weinidog ei hunan, wedi ceisio fy nghroesholi ar y pwnc. Os ydych chi’n credu bod gyda chi dystiolaeth gadarn, arestiwch fi, neu sefwch naill ochr a gadael i ni barhau â’n seremoni’n heddychlon.’

Mae Walter Lloyd yn petruso a fy rhegi o dan ei wynt. Mae’n sefyll naill ochor gan weiddi,

‘Rydyn ni’n’ eich ‘nabod chi’n rhy dda, Edward Williams. Mab i fasnachwr gonest a’ch mam o deulu da. Sut gythraul dych chi o bawb yn llwyfannu’r fath …… bantomeim a hyn?’

Mae Walter a’i ynadon yn sgwrsio eto. Ydyn nhw’n meddwl eu bod wedi clywed rhywbeth y gallan nhw ddefnyddio yn ein herbyn yn y llys?

Rwy’n hapus gyda fy nghreadigaeth. Fy ngwir yn erbyn y byd. Fe gawn weld beth wnaiff y byd ohono.

Geirfa	
amgylchynu	surround
angenrheidiol	essential
anghysbell	remote
creadigaeth	creation
cyfyngu	limit
Deddf Cyfarfodydd Terfysglyd	Seditious Meetings Act
gwaywffyn	pikes
gweinio	sheathe
pastwn	truncheon
Sut gythraul…	How the devil..
trwydded	licence
tystiolaeth	evidence
gwrthwynebiad	opposition
ymarferion enllibus	libellous practices
ynadon	magistrates

Adapted from *Myfi,Iolo* by Gareth Thomas available in Welsh and English editions from Y Lolfa